**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Nodiadau'r Cyfarfod Lansio Cyhoeddus 22 Mehefin 2018

## Yn bresennol

Llyr Gruffydd AC (yn Cadeirio), Mark Isherwood AC, Ann Jones AC, Steve Ellison (Swyddfa Ann Jones), Ken Skates AC, Sian Gwenllian AC, Dr. Clare Eno (ar ran Mandy Jones), David Humphreys (ar ran Hannah Blythyn AC)
a Stephen Jones (CLlLC)
Ian Lucas AS a David Rix (Swyddfa Ian Lucas), Chris Ruane AS a Liz Savile Roberts AS (APPG Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru),
Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd), Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam), Cynghorydd Llinos Medi Huws, Cynghorydd Julian Thompson Hill ac Iwan Trefor Jones (NWEAB)
Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru Mersi a'r Ddyfrdwy), David Jones (CBI/DEZ)
<u>Ymddiheuriadau:</u>
AC: Janet Finch Saunders, Darren Millar, Mandy Jones, Rhun ap Iorwerth, Hannah Blythyn
AS: David Hanson, Susan Elin Jones, Hywel Williams ac Albert Owen
Arweinwyr: Aaron Shotton, Hugh Evans a Gareth Jones

## Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Llyr Gruffydd AC y cyfarfod a dywedodd fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi'i ailgynnull yn dilyn dyrchafiad Hannah Blythyn AC, i'r Llywodraeth, a oedd yn golygu na allai reoli ac arwain gwaith y Grŵp bellach.

Mae gan y Grŵp dîm arweinyddiaeth newydd: -

| | |
|---|---|
| Llyr Gruffydd AC | Cadeirydd |
| Ann Jones AC | Is-Gadeirydd |
| Mark Isherwood AC | Is-Gadeirydd |

Bydd y Grŵp yn cynnal cyfarfodydd yng Ngogledd Cymru a'r Cynulliad.

Croesawodd y Cadeirydd arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr busnes yn y rhanbarth i'r cyfarfod, gan nodi presenoldeb Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, Arweinwyr Cyngor ac Arweinwyr Busnes.

Prif nod y Grŵp Trawsbleidiol yw hyrwyddo datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru a sicrhau bod y rhanbarth yn cael cefnogaeth dda gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Bydd y Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol, Cynrychiolwyr Busnes ac Aelodau Seneddol i fanteisio ar bob un o'r cyfleoedd sydd ar gael i dyfu economi'r rhanbarth.

Bydd y Grŵp yn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael o wella cysylltedd Gogledd Cymru i Dde a Chanolbarth Cymru, Iwerddon, drwy Borthladd Caergybi a Phwerdy Gogledd Lloegr, gan weithio mewn partneriaeth gyda Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy i gysylltu â Phwerdy Gogledd Lloegr.

Bydd y Grŵp yn ymgysylltu ag asiantaethau cyhoeddus a chyrff rhanbarthol i hyrwyddo twf economaidd y rhanbarth fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Growth Track 360 a Grŵp Seneddol Hollbleidiol Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru sydd ag amcanion tebyg yn San Steffan i'r Grŵp Trawsbleidiol yn y Cynulliad.

## Cynnig Twf Gogledd Cymru – Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Rhoddodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn y wybodaeth ddiweddaraf am Gynnig Twf Gogledd Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Y pwyntiau allweddol oedd: -

Mae'r chwe Awdurdod Lleol yn cydweithio'n dda. Mae'r Arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd da a ffydd cryf yn ei gilydd.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn croesawu sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol yn y Cynulliad. Mae'n darparu cyfle i ddylanwadu ar lywodraethau drwy bartneriaethau a system a gydnabyddir ar gyfer darparu gwybodaeth.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi sefydlu llwyfan cryf i geisio cynnig twf gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o Addysg Uwch, Addysg Bellach a Busnes.

Mae Iwan Trefor Jones yn arwain gwaith cynhyrchu cynlluniau busnes amlinellol ar gyfer wyth rhaglen gyda chyfanswm o 26 o brosiectau wedi'u dylunio i wella perfformiad economaidd y rhanbarth. Daw'r ymyriadau hyn o Weledigaeth Twf Gogledd Cymru a bwriad y Bwrdd yw paru'r ymyriadau strategol a gaiff eu heirioli yn y Weledigaeth gydag amrywiaeth o ffrydiau ariannu gan gynnwys y Cynnig Twf.

Caiff Iwan ei gefnogi gan dîm bach o "ymgynghorwyr" yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd o swyddogion.

Mae angen datblygu corff budd-ddeiliaid lle gall arweinwyr busnes roi cyngor a chyfeiriad strategol i'r Bwrdd.

Mae swyddogion yn gweithio ar gytundeb cyfreithiol a fydd yn diffinio llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer y chwe Chyngor a'u partneriaid.

Mae Swyddogion Cyllid yn edrych ar sut gellir ariannu'r fargen.

Mae'r tair ffrwd waith hyn (datblygu prosiect, cyfranogiad budd-ddeiliaid ac ariannu) yn amodol ar drafodaeth gyda'r ddwy lywodraeth. Mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y llywodraeth yn cefnogi manylion y prosiectau, llywodraethu a chynrychiolaeth budd-ddeiliaid.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gobeithio gweld Bargen Dwf yn cael ei sicrhau ym mis Tachwedd 2018, gydag achosion busnes llawn ar gyfer amrywiaeth o brosiectau yn dechrau ym mis Rhagfyr 2018 ac yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau o fis Ebrill 2019.

Ar hyn o bryd, mae'r Prosiectau yn dod i gynnig o tua £400m a fyddai'n galluogi cyfanswm buddsoddiad o £790m yn economi Gogledd Cymru. O'r swm hwnnw, daw hanner o'r sector preifat a phartneriaid eraill (nid trysorlys).

Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd y Fargen yn cael effaith ar safonau byw yn y rhanbarth. Ei nod fydd mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd yn y tymor hwy.

Rydym yn ceisio datganoli a gobeithiwn ddatblygu llais rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru dros gludiant, sgiliau a chefnogaeth i arloesedd busnes a thwf.

Mae'r rhanbarth yn amrywiol gyda rhannau crynodedig o amddifadedd ar draws y rhanbarth cyfan. Felly, nod y cynnig yw gwasgaru twf a chynyddu ffyniant.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ymwneud â darparu llais cryf i Ogledd Cymru. Byddwn yn gryfach os byddwch yn ymuno a gweithio gyda ni.

**<u>APPG Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru - Ian Lucas AS</u>**

Rhoddodd Ian Lucas y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr APPG a oedd wedi'i gefnogi gan Chris Ruane AS. Y pwyntiau allweddol oedd: -

- Mae CPG Gogledd Cymru yn ddatblygiad a gaiff ei groesawu'n fawr. Mae angen ymrwymiad ar y rhanbarth gan y Cynulliad.

- Byddai'r AS yn San Steffan yn croesawu datganoli o Fae Caerdydd i Ogledd Cymru.

- Mae croeso mawr i'r Cynnig Twf. Nodir bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn marcio gwaith cartref y rhanbarth. Mae angen symudiad er mwyn darparu'r cynnig a dechrau proses ddatganoli i'r rhanbarth a buddsoddiad yn y rhanbarth.

- Mae pob rhan o'r rhanbarth yn hardd ac mae potensial i ddatblygu cynigion twristiaeth gyda'r gorau yn y byd.

- Mae Gogledd Cymru yn rhan o un ardal economaidd gyda nifer o awdurdodau lleol ac mewn dwy "wlad" wahanol gyda pholisïau a dulliau gwahanol o drin gwasanaethau cyhoeddus.

- Mae angen corff i uno'r rhannau o'r economi weithredol sengl a chysylltu'r ardal i Bwerdy Gogledd Lloegr. Mae cydlyniant rhanbarthol a thrawsffiniol yn hanfodol i gysylltu â Phwerdy Gogledd Lloegr ac osgoi sefyllfa lle caiff economi Gogledd Cymru ei thrin fel eilbeth a'i hesgeuluso. Mae nod ail-gydbwyso'r economi yn y DU angen i Ogledd Cymru gysylltu i'r ardal weithredol drawsffiniol a Phwerdy Gogledd Lloegr. Mae angen hefyd am ail-gydbwyso economaidd yng Nghymru lle mae Caerdydd yn cymryd cyfran anghymesur o adnoddau a buddsoddiad Cymru.

- Mae rheilffyrdd wedi helpu i ddatblygu'r agenda hon a dod â phartneriaid Gogledd Cymru a thrawsffiniol ynghyd.

- Tan yn ddiweddar, nid yw LlC wedi bod yn sympathetig i'r agenda gweithio trawsffiniol ac rydym yn gwybod nad yw'n boblogaidd mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'r sector preifat yn gefnogol a dangosodd yr Uwchgynhadledd Ynni yn Runcorn botensial cydweithio ar draws ffiniau i ddatblygu'r economi. Mae'n hanfodol ein bod yn siarad gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r problemau sydd gennym o ran amddifadedd, seilwaith cludiant gwael a dull Brexit. Heddiw mae Airbus wedi amlygu'r risgiau mawr mae Brexit yn eu peri i les economaidd.

Rhaid i'r rhanbarth uno a chreu amgylchedd lle allwn siarad gyda'n gilydd a chefnogi'n gilydd ar faterion cyffredin o ddiddordeb fel Cludiant a Brexit. Yr her allweddol yw cyfathrebu pa mor dda yw ardal Gogledd Cymru a'r ardal Drawsffiniol i'r economi a'r cwmnïau ac asedau sydd gyda'r gorau yn y byd.

Mae blaenoriaethau yn cynnwys: -

- Ymgysylltu â Keolis Amey a'r Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymreig newydd
- Gwella'r Economi Ddigidol a chreu rhwydwaith ffibr rhanbarthol
- Ymgysylltu Addysg Uwch ac Addysg Bellach fwy mewn gwelliant economaidd; mae angen lefel uchel o sgiliau yn y dyfodol arnom. Mae angen i ni fod yn barod ar gyfer newidiadau mawr i ddod ym maes ynni a gweithgynhyrchu a chymryd y cyfleodd a ddaw gyda newid.
- Adeiladu diwydiannau creadigol
- Dod â rhagor o gwmnïau proffesiynol ac ariannol i mewn
- Cyfathrebu'n well a mwy cydlynol gyda llywodraethau

Mae gormod o bobl ifanc yn gorfod gadael y rhanbarth i ddatblygu. Gallai gwella sgiliau ddileu'r sbardun hwnnw i adael y rhanbarth.

Mae strwythurau gwleidyddol i helpu'r rhanbarth i gydweithio ar draws ffiniau a seneddau yn hanfodol i ddatgloi potensial yr ardal.

Mae'n amser darparu. Mae Cynnig Twf Gogledd Cymru wedi bod mewn 3 chyllideb. Mae angen i ni fynd amdani a mynd o flaen Gweinidogion a gwerthu'r rhanbarth drwy brosiectau mawr, trawsnewidiol sy'n dal y dychymyg.

Mae agenda ehangach o lawer na'r Cynnig Twf yn seiliedig ar gydweithio. Mae'r gallu gennym i ddarparu twf. Rydym yn gwella a datblygu perthnasoedd ar draws seneddau a ffiniau. Mae gennym gefnogaeth gref Ken Skates, felly nawr yw'r amser.

Dywedodd Chris Ruane AS fod rhaid i'r rhanbarth adeiladu ar ei gryfderau: -

- Peirianneg (Gweithgynhyrchu) – Awyrofod, Opteg,
- Ynni
- Twristiaeth ac

- Amaethyddiaeth

Mae gwella cysylltiadau Dwyrain Gorllewin yn hanfodol i iechyd twristiaeth y rhanbarth a sefydliadau Addysgu Uwch/Addysg Bellach.

Mae llawer o waith i'w wneud i annog pawb – AS, AC a Chynghorau – i weithio tuag at yr un nod. Mae gwaith Ian gydag APPG a'r cyfleoedd a gynigir gan gydweithio gyda NWEAB a CPG yn gamau mawr.

**<u>Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Chludiant</u>**

Roedd pwyntiau allweddol a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys: -

- Dilynir sefyllfa Airbus ar Brexit gan ddatganiadau tebyg gan y sector modurol. Mae eu datganiadau cyhoeddus yn gyson â phryderon preifat a fynegwyd yn gyson ers i broses Brexit ddechrau.

- Mae'n wych bod AC, AS ac Arweinwyr Cyngor yn cyfarfod gyda'i gilydd. Mae cyfle mawr i Ogledd Cymru os gallwn i gyd gydweithio fel tîm.

- Mae blaenoriaethau tymor byr yn cynnwys: -
    - Darparu'r Cynnig Twf
    - Cymryd y cyfleoedd a gynigir gan y Fasnachfraint Rheilffyrdd
    - Darparu buddsoddiadau preifat allweddol, mae Wylfa Newydd yn un ohonynt

Mae'r Cynnig Twf yn datblygu'n dda gyda llawer o gydweithredu yn digwydd. Mae LlC yn rhan o ymgynghoriad ar gynlluniau'r Cynnig Twf. Bydd y Llywodraeth yn ymateb gan ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel canllaw i asesu.

Bydd y Llywodraeth yn ceisio cefnogi cynlluniau sy'n drawsnewidiol ac sy'n rhoi cyd-destun o newid sylweddol o ran codi lefel sgiliau yn y rhanbarth.

Mae'r Cynnig Twf yn sefyll ochr yn ochr ag ymdrechion y Llywodraeth i wella seilwaith cludiant Gogledd Cymru (trydydd pont dros y Fenai) a buddsoddiadau eraill i wella perfformiad economaidd fel AMRI a datblygu Porth y Gogledd yng Nglannau Dyfrdwy.

Mae galluogwyr allweddol yn y Cynnig Twf yn cynnwys seilwaith i wella: -
- Cysylltedd Ddigidol
- Sgiliau (Canolfannau Rhagoriaeth)
- Cymorth i Fusnesau (Canolfannau Rhagoriaeth Arloesedd)
- Cludiant

Mae'r fasnachfraint newydd yn newyddion da, oherwydd mae wedi'i gysylltu â gobeithion eraill ar gyfer gwelliant mewn gwasanaethau bws, teithio llesol a gwasanaethau parcio a theithio, bydd yn galluogi pobl i gael swyddi yn well.

Mae teithio ar gludiant cyhoeddus fforddiadwy yn isel iawn yng Ngogledd Cymru o gymharu â rhannau eraill o Gymru a Glannau Mersi. Amcangyfrifir fod 1 o bob 5 o bobl yn gwrthod cynnig am swydd yn ardal Cynghrair Merswy a Dyfrdwy oherwydd na allant gyrraedd y gwaith yn ddigon rhwydd.

Mae angen i Ogledd Cymru gael cyfran fwy cyfartal o fuddsoddiad mewn seilwaith (ffyrdd a rheilffyrdd) gan LlC.

Mae Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau yn dod â buddion cymunedol i Gymru – prentisiaethau, ffatri cydosod trenau, swyddfeydd Keolis ac estyn swyddfa Amey Cymru, yn ogystal â gorsafoedd gwell, cerbydau a phatrymau gwasanaeth.

Bydd gwelliant mawr i gynnig gwasanaeth llinell Wrecsam – Bidston – Lerpwl.

Mae Wylfa yn brosiect allweddol. Bydd yn sbarduno ymchwiliad i drydydd pont dros y Fenai. Mae LlC yn ceisio dull gwahanol o ariannu Wylfa Newydd gyda Llywodraeth y DU yn cymryd cyfran ecwiti mewn ariannu'r datblygiad.

Mae LlC yn buddsoddi £600m mewn uwchraddio'r A494/A55, ffordd osgoi Bontnewydd, cylchfannau'r A55 ac astudiaethau i'r trydydd pont dros y Fenai.

Mae adolygiad o wydnwch yr A55 wedi nodi rhai atebion cyflym i wella llif traffig. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn annog buddsoddiad mawr yn yr A55 fel gwythïen ffyrdd allweddol Gogledd Cymru. Mae buddsoddiadau eraill yn cynnwys: -

- Pont Abermo
- AMRI (Glannau Dyfrdwy)
- Pencadlys Development Bank, Wrecsam
- M-Sparc

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn darparu cyfle i ddatganoli swyddogaethau i'r rhanbarth drwy gydweithio rhwng y Cynghorau (NWEAB) a'r Prif Swyddog Rhanbarthol a all gynhyrchu cynllun ar y cyd gyda'r cynghorau/NWEAB.

Mae lefel uchel o gydweithredu rhwng LlC, Cynghorau, Addysg Uwch/Addysg Bellach, y sector preifat a gwleidyddion etholedig. Mae hyn yn rhoi Gogledd Cymru mewn lle da i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y Fargen Dwf, y Cynllun Gweithredu Economaidd, y Fasnachfraint Rheilffyrdd a buddsoddiadau LlC.

## Trafodaeth

**<u>Cyng. Mark Pritchard</u>**

Dywedodd y Cyng. Pritchard ei fod yn hoffi beth roedd yn ei glywed. Mae'r Cynghorau wedi gwneud cynnydd da gyda'r fargen dwf ar: -

- Brosiectau
- Llywodraethu a

Dywedodd y Cyng. Pritchard: -

- Mae'n anodd blaenoriaethu heb arwydd o'r arian parod sydd ar gael
- Mae terfynau amser ar gyfer y fargen dwf yn dynn ac mae'n pryderu na fydd arian ar gael ar ôl Cyllideb mis Tachwedd os na fyddant yn llunio cytundeb (amlinellol).

Ymatebodd Ken Skates AC: -

- Gellir blaenoriaethu heb gyhoeddi arian.
- Dylai'r Cynnig Twf fod yn symud yr achosion busnes cryfaf ymlaen, sy'n drawsnewidiol, arloesol ac sy'n cael effaith ranbarthol.
- Gellir symud cynlluniau eraill sy'n syniadau da ymlaen mewn ffyrdd eraill.

- Mae achosion busnes cadarn ar gyfer prosiectau yn y ddau gategori yn allweddol
- Dylai'r achosion busnes cryfaf fynd yn gyntaf
- Mae angen cyhoeddi'r fargen yng nghyllideb mis Tachwedd 2018

**<u>David Jones OBE, Cadeirydd Cangen CBI Gogledd Cymru</u>**

Dywedodd David Jones OBE fod y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo gweledigaeth dwf sy'n hyblyg, deinamig ac sy'n datblygu. Felly gall y Cynnig Twf ddatblygu (o'r rhai sydd eisoes yn y cynnig) a chymryd syniadau a phrosiectau newydd.

Mae angen i brosiectau fod yn drawsnewidiol, nid prosiectau nad oeddent yn ddigon da ar gyfer cyllid o ffynonellau eraill.

Mae'n ddilys gofalu am beth sydd gennym fel Airbus, drwy'r AMRI a phrosiectau eraill.

Dylai'r rhanbarth fod yn chwilio am etifeddiaeth 10 i 15 mlynedd o'r Fargen Dwf.

Mae rhagor o ymwneud gan fusnesau yn y fargen yn ddymunol. Mae Swyddfa Cymru wedi cymryd y mater hwn gan ymateb i Gangen CBI Gogledd Cymru. Mae angen i'r fargen ymwneud yn agos â'r sector preifat a dod â buddsoddiad o'r sector preifat.

**<u>Mark Isherwood AC, Is-Gadeirydd</u>**

- Faint o arian gaiff ei ddyrannu i'r Cynnig Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phryd?
- A fydd amodau cymryd yn ôl pe na bai rhai o Brosiectau'r Fargen Dwf yn cyflawni eu canlyniadau?

Rhaid i fuddsoddiad Llywodraeth y DU fod yn gysylltiedig â buddsoddiad gan fusnesau preifat ac roedd Stuart Andrew AS yn Swyddfa Cymru wedi egluro dylai prosiectau fod yn drawsnewidiol a chael effaith ranbarthol a pheidio bod yn brosiectau "busnes fel arfer".

Dywedodd: -

- Pryder nad yw Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi dyheadau Ysgrifennydd y Cabinet o ran buddsoddiad sylweddol mewn ffyrdd yn y rhanbarth ac nid yw ffyrdd yn bodloni pob un o'r saith prawf yn y FGA ar gyfer buddsoddiad.

- Cefnogaeth ar gyfer Corff Cludiant Gogledd Cymru, o ddewis gyda phwerau dirprwyedig ac sy’n addas ar gyfer y dyfodol, gyda rheolaeth cyllid gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Gofynnodd a fyddai corff o’r fath angen deddfwriaeth.

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu Canolfan Twf Busnes Gogledd Cymru i ddod â gwasanaethau datblygu economaidd at ei gilydd o amrywiaeth o wahanol gyrff yng Ngogledd Cymru (LlC, Cynghorau ac eraill).

Roedd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau’r Cynulliad wedi edrych ar y rhan fwyaf o’r materion hyn ac wedi gwneud argymhellion arnynt.

**<u>Liz Saville Roberts AS</u>**

Gofynnodd Liz Saville Roberts AS sut gall yr awdurdodau lleol helpu i dyfu busnesau brodorol gan sôn am achos cwmni lleol mae ei dwf yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg eiddo i ehangu iddo.

Mae angen ymyrraeth uniongyrchol i helpu busnesau bach a chanolig yn y rhanbarth i alluogi “twf organig”. Ni fydd dull treigl yn ddigon da.

**<u>Cyng. Llinos Medi Huws</u>**

Rhoddodd Llinos Medi Huws negeseuon cadarnhaol i’r cyfarfod: -

- Mae’r awdurdodau lleol yn barod i roi arian i mewn i’r cynnig twf drwy fenthyca â chymhorthdal.
- Bydd y Cynghorau yn rheoli'r risg o adfachu a pheidio cyrraedd targedau ac maen nhw wedi ymrwymo i rannu risgiau’r cynnig.

Mae Stena yn gyfrannwr sylweddol o ran buddsoddiad preifat i’r Cynnig drwy Brosiect Porthladd Caergybi.

Rhaid i ni gadw ein traed ar y ddaear a chydnabod y bydd trafodaethau heriol rhwng Cynghorau a rhwng Cynghorau a llywodraethau i ddarparu Cynnig Twf ar gyfer Gogledd Cymru.

**<u>Iwan Trefor Jones (NWEAB)</u>**

Mae Cynghorau Gogledd Cymru wedi gweithio’n galed i greu strwythurau llywodraethu cadarn a datblygu perthnasoedd gyda phartneriaid.

Mae tîm ar waith i ddatblygu’r rhaglen o brosiectau.

Bydd bodolaeth Corff Llywodraeth Gogledd Cymru cadarn sy’n delio â’r economi a chludiant yn darparu’r llwyfan i drafod datganoli swyddogaethau a phwerau i’r rhanbarth a rhoi llais cryf, unedig i’r rhanbarth. Bydd llais rhanbarthol cryf o gydweithio yn galluogi gwell dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae'r Cynnig Twf yn bwnc allweddol ar gyfer dylanwadu.

Mae'r Cynnig Twf wedi'i lunio gan strategaethau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (Cynllun Gweithredu Economaidd Cymru a Strategaeth Ddiwydiannol y DU). Mae 8 rhaglen gyda 26 prosiect sy'n ceisio adeiladu ar ein cryfderau mewn gweithgynhyrchu uwch, ynni a thwristiaeth.

Gyda'i gilydd mae'n becyn trawsnewidiol a fydd yn creu swyddi o safon a chynyddu gwerth ychwanegol gros (GVA), a gobeithio lleihau'r bwlch GVA rhwng Gogledd Cymru a chyfartaledd y DU.

Mae modd newid graddfa'r prosiectau mewn nifer o feysydd (e.e. digidol) ac mae buddsoddiad mewn sgiliau yn hanfodol i leihau anghydraddoldebau rhanbarthol, amddifadedd a diwallu anghenion busnesau.

Mae busnesau wedi chwarae rôl sylweddol o ran datblygu Cynnig Twf Gogledd Cymru, yn bennaf, ond nid yn unig, drwy'r Cyngor Busnes.

Bydd nifer y prosiectau a gaiff eu datblygu yn galluogi NWEAB i dargedu ffrydiau ariannu eraill yn ogystal â'r Cynnig Twf fel rhan o'r strategaeth ddarparu ar gyfer Gweledigaeth Dwf Gogledd Cymru.

Bydd y Cynnig Twf yn eistedd ochr yn ochr â buddsoddiadau mawr eraill yn y rhanbarth, fel Wylfa Newydd, i annog ffyniant cynyddol yng Ngogledd Cymru.

## Casgliadau

Ymatebodd Ken Skates i rai pwyntiau a wnaed: -

- Ni fydd y Cynnig Twf yn diwallu pob angen yn y rhanbarth.
- Dylai NWEAB nodi'r heriau yn y rhanbarth y gwnaeth pob prosiect eu hyrwyddo gan anerchiadau NWERAB.
- Gellir bodloni gofynion datganoli'r rhanbarth drwy weithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Rhanbarthol a all ddatblygu cynllun rhanbarthol a gaiff ei lywio gan ofynion NWEAB.
- Mae angen i'r Cynnig Twf fod â ffocws a bod yn seiliedig ar gynllunio manwl a fydd yn sefyll i fyny i graffu'r Trysorlys.
- Caiff twf organig gan fusnesau bach a chanolig ei gefnogi gan rwydwaith o ganolfannau menter, agorwyd y cyntaf o'r rhain yn Wrecsam yn ddiweddar.

## Cam Gweithredu

Llythyr i gael ei ddrafftio i Swyddfa Cymru SoS a Phrif Weinidog Cymru i roi gwybod iddynt fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi dechrau gweithio a'i fod wedi llunio partneriaethau cadarnhaol gydag APPG, NWEAB a Chynrychiolwyr Busnes o Ogledd Cymru.